# HYSBYSIAD YNGHYLCH GWELLIANNAU
# NOTICE OF AMENDMENTS

## Cyflwynwyd ar 1 Mai 2024
## Tabled on 1 May 2024

## Bil Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru)
## Elections and Elected Bodies (Wales) Bill

**Mick Antoniw** **11**

Section 1, page 5, line 7, leave out 'The Commission must not appoint a person under subsection (1)(c) who is' and insert 'A person appointed under subsection (1)(c) must not be'.

Adran 1, tudalen 5, llinell 7, hepgorer 'Rhaid i'r Comisiwn beidio â phenodi person o dan is-adran (1)(c) sydd' a mewnosoder 'Rhaid i berson a benodir o dan is-adran (1)(c) beidio â bod'.

**Mick Antoniw** **12**

Section 1, page 5, line 9, leave out 'the House of Commons' and insert 'a UK legislature'.

Adran 1, tudalen 5, llinell 9, hepgorer 'Dŷ'r Cyffredin' a mewnosoder 'un o ddeddfwrfeydd y DU'.

**Mick Antoniw** **13**

Section 1, page 5, leave out line 10.

Adran 1, tudalen 5, hepgorer llinell 10.

**Mick Antoniw** **14**

Section 1, page 5, line 11, leave out 'Senedd Cymru' and insert 'the Senedd (within the meaning of the Government of Wales Act 2006 (c. 32))'.

Adran 1, tudalen 5, llinell 11, hepgorer 'Senedd Cymru' a mewnosoder 'y Senedd (o fewn yr ystyr a roddir i "member of the staff of the Senedd" gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32))'.

**Mick Antoniw** **15**

Section 1, page 5, line 12, leave out '(not falling within paragraph (c)) appointed to assist a Member of the Senedd' and insert 'engaged by a member of a UK legislature, under a contract of service or a contract for services, in connection'.

Adran 1, tudalen 5, llinell 12, hepgorer '(nad yw'n dod o fewn paragraff (c)) a benodir i gynorthwyo Aelod o Senedd Cymru i gyflawni' a mewnosoder 'a gymerir ymlaen gan aelod o un o ddeddfwrfeydd y DU, o dan gontract gwasanaeth neu gontract am wasanaethau, mewn cysylltiad â chyflawni'.

**Mick Antoniw** **16**

Section 4, page 10, after line 4, insert—

'( ) in paragraph 10, after sub-paragraph (2) insert—

"(3) This paragraph does not apply to a register of local government electors for an area in Wales."

( ) in paragraph 10B, after sub-paragraph (3) insert—

"(4) Paragraph (b) of sub-paragraph (1) does not apply to a register of local government electors for an area in Wales."'.

Adran 4, tudalen 10, ar ôl llinell 4, mewnosoder—

'( ) ym mharagraff 10, ar ôl is-baragraff (2) mewnosoder—

"(3) This paragraph does not apply to a register of local government electors for an area in Wales."

( ) ym mharagraff 10B, ar ôl is-baragraff (3) mewnosoder—

"(4) Paragraph (b) of sub-paragraph (1) does not apply to a register of local government electors for an area in Wales."'.

**Mick Antoniw** **17**

Section 5, page 10, line 32, leave out 'section 3' and insert 'sections 3 and 4'.

Adran 5, tudalen 10, llinell 34, hepgorer 'adran 3' a mewnosoder 'adrannau 3 a 4'.

**Mick Antoniw** **18**

Section 5, page 11, line 1, leave out 'section 3 (or the subordinate legislation that may be made by virtue of that section)' and insert 'sections 3 and 4 (or the subordinate legislation that may be made by virtue of those sections)'.

Adran 5, tudalen 11, llinell 1, hepgorer 'adran 3 (neu'r is-ddeddfwriaeth y caniateir ei gwneud yn rhinwedd yr adran honno)' a mewnosoder 'adrannau 3 a 4 (neu'r is-ddeddfwriaeth y caniateir ei gwneud yn rhinwedd yr adrannau hynny)'.

**Mick Antoniw** **19**

Section 7, page 12, after line 15, insert—

'( ) If a statutory instrument or a draft statutory instrument containing pilot regulations laid before Senedd Cymru makes provision applying to the area of a principal council (or any part of it) to which the council has not given its consent, the Welsh Ministers must also lay a statement before the Senedd explaining why they consider the provision should be made without the council's consent.'.

Adran 7, tudalen 12, ar ôl llinell 16, mewnosoder—

‘( ) Os yw offeryn statudol neu offeryn statudol drafft sy’n cynnwys rheoliadau peilot a osodir gerbron Senedd Cymru yn gwneud darpariaeth sy’n gymwys i ardal prif gyngor (neu unrhyw ran ohoni) nad yw’r cyngor wedi rhoi ei gydsyniad iddi, rhaid i Weinidogion Cymru hefyd osod datganiad gerbron y Senedd sy’n egluro pam y maent yn ystyried y dylai’r ddarpariaeth gael ei gwneud heb gydsyniad y cyngor.’.

**Mick Antoniw** **20**

Page 12, line 27, leave out section 8.

Tudalen 12, llinell 29, hepgorer adran 8.

**Mick Antoniw** **21**

Section 20, page 19, after line 31, insert—

‘( ) If after the expiry of the 60-day period the Welsh Ministers wish to proceed with the draft regulations without material changes where material changes are recommended by a committee of Senedd Cymru charged with reporting on the draft regulations—

(a) the Welsh Ministers must lay before Senedd Cymru a statement explaining their reasons for not accepting the committee’s recommendations (whether wholly or partly), and

(b) if the draft regulations are subsequently approved by a resolution of Senedd Cymru, the Welsh Ministers may make regulations in the terms of the draft regulations.’.

Adran 20, tudalen 19, ar ôl llinell 35, mewnosoder—

‘( ) Os yw Gweinidogion Cymru, ar ôl i’r cyfnod o 60 o ddiwrnodau ddod i ben, yn dymuno bwrw ymlaen â’r rheoliadau drafft heb newidiadau o sylwedd pan fo newidiadau o sylwedd wedi eu hargymell gan bwyllgor yn Senedd Cymru a chanddo’r gorchwyl o adrodd ar y rheoliadau drafft—

(a) rhaid i Weinidogion Cymru osod gerbron Senedd Cymru ddatganiad sy’n egluro eu rhesymau dros beidio â derbyn argymhellion y pwyllgor (pa un ai’n gyfan gwbl neu’n rhannol), a

(b) os yw’r rheoliadau drafft wedi eu cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru yn ddiweddarach, caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau gan ddilyn ffurf y rheoliadau drafft.’.

**Mick Antoniw** **22**

Section 20, page 19, line 32, after ‘period’, insert ‘the Welsh Ministers wish to proceed with the draft regulations without material changes where no material changes are recommended by a committee of Senedd Cymru charged with reporting on the draft regulations and’.

Adran 20, tudalen 19, llinell 36, hepgorer 'yw'r rheoliadau drafft, ar ôl i'r cyfnod o 60 o ddiwrnodau ddod i ben,' a mewnosoder 'yw Gweinidogion Cymru, ar ôl i'r cyfnod o 60 o ddiwrnodau ddod i ben, yn dymuno bwrw ymlaen â'r rheoliadau drafft heb newidiadau o sylwedd pan na fo unrhyw newidiadau o sylwedd wedi eu hargymell gan bwyllgor yn Senedd Cymru a chanddo'r gorchwyl o adrodd ar y rheoliadau drafft ac os yw'r rheoliadau drafft'.

**Mick Antoniw** **23**

Section 20, page 20, line 2, after 'proposed', insert 'and, if subsection ([*subsection inserted by this amendment*]) applies, explaining the Welsh Ministers' reasons for not accepting (whether wholly or partly) recommendations of a committee of Senedd Cymru charged with reporting on the draft regulations.

( ) This subsection applies if—

(a) the material changes in the revised draft regulations are materially different from changes recommended by the committee, or

(b) the revised draft regulations do not contain material changes recommended by the committee'.

Adran 20, tudalen 20, llinell 2, ar ôl 'gynigir', mewnosoder 'ac, os yw is-adran ([y*r is-adran a fewnosodir gan y gwelliant hwn*]) yn gymwys, sy'n egluro rhesymau Gweinidogion Cymru dros beidio â derbyn (pa un ai'n gyfan gwbl neu'n rhannol) argymhellion gan bwyllgor yn Senedd Cymru a chanddo'r gorchwyl o adrodd ar y rheoliadau drafft.

( ) Mae'r is-adran hon yn gymwys—

(a) os yw'r newidiadau o sylwedd yn y rheoliadau drafft diwygiedig yn sylweddol wahanol i'r newidiadau sydd wedi eu hargymell gan y pwyllgor, neu

(b) os nad yw'r rheoliadau drafft diwygiedig yn cynnwys newidiadau o sylwedd sydd wedi eu hargymell gan y pwyllgor'.

**Mick Antoniw** **24**

Nid oes angen diwygio'r fersiwn Saesneg. There is no need to amend the English version.

Adran 28, tudalen 24, llinell 31, hepgorer 'sicrhau'.

**Mick Antoniw** **25**

Section 29, page 26, line 8, leave out subsection (7) and insert—

'( ) The scheme must not be operated by excluded persons (see section 30).'.

Adran 29, tudalen 26, llinell 8, hepgorer is-adran (7) a mewnosoder—

'( ) Ni chaniateir i'r cynllun gael ei weithredu gan bersonau a eithrir (gweler adran 30).'.

**Mick Antoniw** **26**

Section 30, page 27, leave out line 4.

Adran 30, tudalen 27, hepgorer llinell 4.

**Mick Antoniw** **27**

Section 30, page 27, line 6, leave out 'member of the civil service of the state (including the staff of the Welsh Government)' and insert 'person employed in the civil service of the state'.

Adran 30, tudalen 27, hepgorer llinell 6 a mewnosoder—

'( ) person a gyflogir yng ngwasanaeth sifil y wladwriaeth;'.

**Mick Antoniw** **28**

Section 30, page 27, after line 8, insert—

'( ) a member of the House of Lords;'.

Adran 30, tudalen 27, ar ôl llinell 7, mewnosoder—

'( ) aelod o Dŷ'r Arglwyddi;'.

**Mick Antoniw** **29**

Section 30, page 27, after line 10, insert—

'( ) a member of the staff of the Senedd (within the meaning of the Government of Wales Act 2006 (c.32));'.

Adran 30, tudalen 27, ar ôl llinell 9, mewnosoder—

'( ) aelod o staff y Senedd (o fewn yr ystyr a roddir i "member of the staff of the Senedd" gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32));'.

**Mick Antoniw** **30**

Section 30, page 27, line 23, leave out '(j)' and insert '(k)'.

Adran 30, tudalen 27, llinell 24, hepgorer '(j)' a mewnosoder '(k)'.

**Mick Antoniw** **31**

Section 30, page 27, line 24, leave out '(g)' and insert '(h)'.

Adran 30, tudalen 27, llinell 25, hepgorer '(g)' a mewnosoder '(h)'.

**Mick Antoniw** **32**

Page 27, after line 25, insert a new section—

**'[ ] Guidance for political parties to promote diversity in persons seeking elected office**

(1) The Welsh Ministers must issue guidance for registered political parties about—

(a) collecting, collating and publishing diversity information about candidates representing registered political parties at elections for the return of members of Senedd Cymru;

(b) developing, publishing, implementing and reviewing strategies for—

(i) promoting diversity in the specified characteristics and specified circumstances of candidates representing registered political parties at Welsh elections, and

(ii) helping candidates representing registered political parties at Welsh elections overcome barriers to their participation in the elections connected to having those characteristics or circumstances.

(2) The Welsh Ministers—

(a) must publish guidance under this section;

(b) must publish the first guidance under this section before 1 May 2025;

(c) must review published guidance from time to time, having regard to the cycle of ordinary general elections for membership of Senedd Cymru and, in relation to guidance under subsection (1)(b), the cycle of ordinary elections for membership of the councils of counties, county boroughs and communities in Wales and elected mayors;

(d) may revise published guidance at any time.

(3) In this section—

"diversity information" ("*gwybodaeth am amrywiaeth*") means specified information relating to a person's personal characteristics or personal circumstances;

"elected mayor" ("*maer etholedig*") means an elected mayor of a council of a county or county borough in Wales;

"specified" ("*penodedig*") means specified in guidance under this section;

"Welsh election" ("*etholiad Cymreig*") means an election for the return of—

(a) a member of Senedd Cymru;

(b) a member of the council of a county or county borough in Wales;

(c) a member of the council of a community in Wales;

(d) an elected mayor.'.

Tudalen 27, ar ôl llinell 26, mewnosoder adran newydd—

**'[ ] Canllawiau ar gyfer pleidiau gwleidyddol i hybu amrywiaeth ymhlith personau sy'n ceisio swydd etholedig**

(1) Rhaid i Weinidogion Cymru ddyroddi canllawiau ar gyfer pleidiau gwleidyddol cofrestredig ynghylch—

(a) casglu, crynhoi a chyhoeddi gwybodaeth am amrywiaeth ynghylch ymgeiswyr sy'n cynrychioli pleidiau gwleidyddol cofrestredig mewn etholiadau ar gyfer dychwelyd aelodau o Senedd Cymru;

(b) datblygu, cyhoeddi, gweithredu ac adolygu strategaethau—

(i) i hybu amrywiaeth yn nodweddion penodedig ac amgylchiadau penodedig ymgeiswyr sy'n cynrychioli pleidiau gwleidyddol cofrestredig mewn etholiadau Cymreig, a

(ii) i gynorthwyo ymgeiswyr sy'n cynrychioli pleidiau gwleidyddol cofrestredig mewn etholiadau Cymreig i oresgyn rhwystrau sy'n eu hatal rhag cymryd rhan yn yr etholiadau sy'n gysylltiedig â'r ffaith bod ganddynt y nodweddion neu'r amgylchiadau hynny.

(2) O ran Gweinidogion Cymru—

(a) rhaid iddynt gyhoeddi canllawiau o dan yr adran hon;

(b) rhaid iddynt gyhoeddi'r canllawiau cyntaf o dan yr adran hon cyn 1 Mai 2025;

(c) rhaid iddynt adolygu'r canllawiau a gyhoeddir o bryd i'w gilydd, gan roi sylw i gylch etholiadau cyffredinol cyffredin i fod yn aelodau o Senedd Cymru ac, mewn perthynas â chanllawiau o dan is-adran (1)(b), i gylch etholiadau cyffredin i fod yn aelodau o gynghorau siroedd, bwrdeistrefi sirol a chymunedau yng Nghymru ac i fod yn feiri etholedig;

(d) cânt ddiwygio ar unrhyw adeg ganllawiau a gyhoeddir.

(3) Yn yr adran hon—

ystyr "etholiad Cymreig" ("*Welsh election*") yw etholiad ar gyfer dychwelyd—

(a) aelod o Senedd Cymru;

(b) aelod o gyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru;

(c) aelod o gyngor cymuned yng Nghymru;

(d) maer etholedig;

ystyr "gwybodaeth am amrywiaeth" ("*diversity information*") yw gwybodaeth benodedig sy'n ymwneud â nodweddion personol neu amgylchiadau personol sydd gan berson;

ystyr "maer etholedig" ("*elected mayor*") yw maer etholedig cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru;

ystyr "penodedig" ("*specified*") yw wedi ei bennu mewn canllawiau o dan yr adran hon.'.

**Mick Antoniw** **33**

Section 38, page 31, leave out lines 29 to 31 and insert—

'( ) Senedd Cymru ("the Senedd");'.

Adran 38, tudalen 31, hepgorer llinellau 29 hyd at 31 a mewnosoder—

'( ) Senedd Cymru ("the Senedd");'.

**Mick Antoniw** **34**

Section 38, page 32, line 5, leave out 'Senedd Cymru ("the Senedd")' and insert 'the Senedd'.

Adran 38, tudalen 32, llinell 5, hepgorer 'Senedd Cymru ("the Senedd")' a mewnosoder 'the Senedd'.

**Mick Antoniw** **35**

Section 38, page 32, leave out lines 31 to 39.

Adran 38, tudalen 32, hepgorer llinellau 31 hyd at 39.

**Mick Antoniw** **36**

Section 39, page 33, line 5, after 'makes', insert 'minor and'.

Adran 39, tudalen 33, llinell 5, ar ôl 'gwneud', mewnosoder 'mân ddiwygiadau a'.

**Mick Antoniw** **37**

Section 45, page 36, leave out lines 3 to 5 and insert—

'( ) in paragraph (d) omit ", and";

( ) omit paragraph (e);'.

Adran 45, tudalen 36, hepgorer llinellau 3 hyd at 5 a mewnosoder—

'( ) ym mharagraff (d) hepgorer ", ac";

( ) hepgorer paragraff (e);'.

**Mick Antoniw** **38**

Section 45, page 36, line 11, leave out 'of' and insert 'for'.

Nid oes angen diwygio'r fersiwn Cymraeg. There is no need to amend the Welsh version.

**Mick Antoniw** **39**

Section 48, page 37, line 14, leave out ', 31'.

Adran 48, tudalen 37, llinell 14, hepgorer ', 31'.

**Mick Antoniw** **40**

Nid oes angen diwygio'r fersiwn Saesneg. There is no need to amend the English version.

Adran 57, tudalen 43, llinell 7, hepgorer 'uchaf' yn yr ail le y mae'n ymddangos.

**Mick Antoniw** **41**

Page 54, after line 30, insert a new section—

'[ ] **Democracy and Boundary Commission Cymru: persons who may not be members etc.**

(1) The 2013 Act is amended as follows.

(2) In section 4(3) (persons who may not be commissioners)—

(a) in paragraph (c), after "member" insert "or member of staff";

(b) omit paragraph (d);

(c) in paragraph (e), after "member" insert "or member of staff";

(d) after paragraph (e) insert—

“(ea) a member or member of staff of a corporate joint committee established by regulations made under Part 5 of the Local Government and Elections (Wales) Act 2021 (asc 1);

(eb) a member or member of staff of a fire and rescue authority constituted by a scheme under section 2 of the Fire and Rescue Services Act 2004 (c. 21), or a scheme to which section 4 of that Act applies;”.

(3) In section 8(4) (persons who may not be chief executive)—

(a) in paragraph (c), after “member” insert “or member of staff”;

(b) omit paragraph (d);

(c) in paragraph (e), after “member” insert “or member of staff”;

(d) after paragraph (e) insert—

“(ea) a member or member of staff of a corporate joint committee established by regulations made under Part 5 of the Local Government and Elections (Wales) Act 2021 (asc 1);

(eb) a member or member of staff of a fire and rescue authority constituted by a scheme under section 2 of the Fire and Rescue Services Act 2004 (c. 21), or a scheme to which section 4 of that Act applies;”.

(4) In section 11(2) (persons who may not be assistant commissioners)—

(a) in paragraph (c), after “member” insert “or member of staff”;

(b) omit paragraph (d);

(c) in paragraph (e), after “member” insert “or member of staff”;

(d) after paragraph (e) insert—

“(ea) a member or member of staff of a corporate joint committee established by regulations made under Part 5 of the Local Government and Elections (Wales) Act 2021 (asc 1);

(eb) a member or member of staff of a fire and rescue authority constituted by a scheme under section 2 of the Fire and Rescue Services Act 2004 (c. 21), or a scheme to which section 4 of that Act applies;”.’.

Tudalen 54, ar ôl llinell 31, mewnosoder adran newydd—

**‘[ ] Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru: personau na chaniateir iddynt fod yn aelodau etc.**

(1) Mae Deddf 2013 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn adran 4(3) (personau na chaniateir iddynt fod yn gomisiynwyr)—

(a) ym mharagraff (c), ar ôl “lleol” mewnosoder “neu’n aelod o staff awdurdod lleol”;

(b) hepgorer paragraff (d);

(c) ym mharagraff (e), ar ôl “awdurdod Parc Cenedlaethol” mewnosoder “, neu’n aelod o staff awdurdod Parc Cenedlaethol,”;

(d) ar ôl paragraff (e) mewnosoder—

"(ea) aelod o gyd-bwyllgor corfforedig, neu'n aelod o staff cyd-bwyllgor corfforedig, a sefydlir gan reoliadau a wneir o dan Ran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (dsc 1);

(eb) aelod o awdurdod tân ac achub, neu'n aelod o staff awdurdod tân ac achub, a gyfansoddir gan gynllun o dan adran 2 o Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), neu gynllun y mae adran 4 o'r Ddeddf honno yn gymwys iddo;".

(3) Yn adran 8(4) (personau na chaniateir iddynt fod yn brif weithredwr)—

(a) ym mharagraff (c), ar ôl "lleol" mewnosoder "neu'n aelod o staff awdurdod lleol";

(b) hepgorer paragraff (d);

(c) ym mharagraff (e), ar ôl "awdurdod Parc Cenedlaethol" mewnosoder ", neu'n aelod o staff awdurdod Parc Cenedlaethol,";

(d) ar ôl paragraff (e) mewnosoder—

"(ea) yn aelod o gyd-bwyllgor corfforedig, neu'n aelod o staff cyd-bwyllgor corfforedig, a sefydlir gan reoliadau a wneir o dan Ran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (dsc 1);

(eb) yn aelod o awdurdod tân ac achub, neu'n aelod o staff awdurdod tân ac achub, a gyfansoddir gan gynllun o dan adran 2 o Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), neu gynllun y mae adran 4 o'r Ddeddf honno yn gymwys iddo;".

(4) Yn adran 11(2) (personau na chaniateir iddynt fod yn gomisiynwyr cynorthwyol)—

(a) ym mharagraff (c), ar ôl "lleol" mewnosoder "neu'n aelod o staff awdurdod lleol";

(b) hepgorer paragraff (d);

(c) ym mharagraff (e), ar ôl "awdurdod Parc Cenedlaethol" mewnosoder ", neu'n aelod o staff awdurdod Parc Cenedlaethol,";

(d) ar ôl paragraff (e) mewnosoder—

"(ea) aelod o gyd-bwyllgor corfforedig, neu'n aelod o staff cyd-bwyllgor corfforedig, a sefydlir gan reoliadau a wneir o dan Ran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (dsc 1);

(eb) aelod o awdurdod tân ac achub, neu'n aelod o staff awdurdod tân ac achub, a gyfansoddir gan gynllun o dan adran 2 o Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), neu gynllun y mae adran 4 o'r Ddeddf honno yn gymwys iddo;".'.

**Mick Antoniw** **42**

Section 70, page 57, after line 22, insert—

'( ) section [*section inserted by amendment 41*] (Democracy and Boundary Commission Cymru: persons who may not be members etc.);'.

Adran 70, tudalen 57, ar ôl llinell 25, mewnosoder—

'( ) adran [*yr adran a fewnosodir gan welliant 41*] (Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru: personau na chaniateir iddynt fod yn aelodau etc.);'.

**Mick Antoniw** **43**

Section 70, page 57, after line 27, insert—

'( ) section [*section inserted by amendment 32*] (guidance for political parties to promote diversity in persons seeking elected office);'.

Adran 70, tudalen 57, ar ôl llinell 31, mewnosoder—

'( ) adran [*yr adran a fewnosodir gan welliant 32*] (canllawiau ar gyfer pleidiau gwleidyddol i hybu amrywiaeth ymhlith personau sy'n ceisio swydd etholedig);'.

**Mick Antoniw** **44**

Section 70, page 57, line 30, after 'instrument', insert ', subject to subsection [*subsection inserted by amendment 45*]'.

Adran 70, tudalen 57, llinell 34, ar ôl 'statudol', mewnosoder ', yn ddarostyngedig i is-adran [*yr is-adran a fewnosodir gan welliant 45*]'.

**Mick Antoniw** **45**

Section 70, page 57, after line 30, insert—

'( ) The provisions of Chapter 2 of Part 1 (electoral registration without applications), except paragraphs (c) and (d) of section 4(9), may not come into force unless—

(a) Welsh election pilot provision of the kind described in section 5(5) has been made in regulations under section 5(1),

(b) a report on the operation of the regulations has been sent to the Welsh Ministers under section 18(5)(a),

(c) the Welsh Ministers have laid the report before Senedd Cymru, and

(d) the regulations in force under section 53 of the 1983 Act that apply to registers of local government electors for areas in Wales do not require registration officers to prepare edited registers of local government electors or supply such registers or part of them to any person on payment of a fee, so far as requirements of that kind in regulations under section 53 are prohibited by virtue of paragraphs 10(3) and 10B(4) of Schedule 2 to that Act (as inserted by section 4(9)(c) and (d) of this Act).'.

Adran 70, tudalen 57, ar ôl llinell 34, mewnosoder—

'( ) Ni chaiff y darpariaethau ym Mhennod 2 o Ran 1 (cofrestru etholiadol heb geisiadau), ac eithrio paragraffau (c) a (d) o adran 4(9), ddod i rym oni bai—

(a) bod darpariaeth peilota etholiadau Cymreig o'r math a ddisgrifir yn adran 5(5) wedi ei gwneud mewn rheoliadau o dan adran 5(1),

(b) bod adroddiad ar weithrediad y rheoliadau wedi ei anfon at Weinidogion Cymru o dan adran 18(5)(a),

(c) bod Gweinidogion Cymru wedi gosod yr adroddiad gerbron Senedd Cymru, a

(d) nad yw'r rheoliadau sydd mewn grym o dan adran 53 o Ddeddf 1983 sy'n gymwys i gofrestrau etholwyr llywodraeth leol ar gyfer ardaloedd yng Nghymru yn ei gwneud yn ofynnol i swyddogion cofrestru lunio cofrestrau golygedig o etholwyr llywodraeth leol na chyflenwi cofrestrau o'r fath na rhan ohonynt i unrhyw berson ar ôl talu ffi, i'r graddau y mae gofynion o'r math hwnnw mewn rheoliadau o dan adran 53 wedi eu gwahardd yn rhinwedd paragraffau 10(3) a 10B(4) o Atodlen 2 i'r Ddeddf honno (fel y'u mewnosodir gan adran 4(9)(c) a (d) o'r Ddeddf hon).'.

**Mick Antoniw** **46**

Schedule 1, page 59, leave out lines 12 to 13.

Atodlen 1, tudalen 59, hepgorer llinellau 13 hyd at 14.

**Mick Antoniw** **47**

Schedule 1, page 62, after line 7, insert—

'( ) in paragraph 6(5), for "Secretary of State" substitute "Presiding Officer".'.

Atodlen 1, tudalen 62, ar ôl llinell 7, mewnosoder—

'( ) ym mharagraff 6(5), yn lle "Secretary of State" rhodder "Presiding Officer".'.

**Mick Antoniw** **48**

Schedule 1, page 62, after line 14, insert—

'( ) in paragraph 6(5), for "Secretary of State" substitute "Presiding Officer".'.

Atodlen 1, tudalen 62, ar ôl llinell 14, mewnosoder—

'( ) ym mharagraff 6(5), yn lle "Secretary of State" rhodder "Presiding Officer".'.